

CYPE(6)-06-22 - Papur i'w nodi 1

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cais am wybodaeth am bresenoldeb disgyblion a hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol

Ymateb gan Ceredigion County Council



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Meinir Ebbsworth

Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion
Corporate Lead Officer : Schools

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

Dyddiad
Date 18 Ionawr, 2022

Fy nghyf
My ref ME/SAD

Eich cyf
Your ref

Drwy e-bost yn unig:

SeneddPlant@senedd.cymru

Annwyl Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17eg Rhagfyr, 2021 parthed argymhellion adroddiad blynyddol Estyn.

Presenoldeb disgyblion:

Mae ein swyddogion cynhwysiant yn dadansoddi presenoldeb disgyblion, ynghyd â phresenoldeb grwpiau penodol, yn wythnosol. Mae gan bob ysgol swyddog cynhwysiant penodol a chyson, sy'n gweithio gyda disgyblion a'u teuluoedd. Ar ddiwedd tymor y Nadolig 2021, roedd y swyddogion hyn yn gweithio gyda 107 o achosion o bresenoldeb isel (dan 90%) a 53 o achosion ble roedd gwaith ataliol er mwyn osgoi presenoldeb isel. Mae'r camau er mwyn ail-integreiddio disgyblion yn llwyddiannus i'r ysgol yn cynnwys cynlluniau ail-integreiddio unigol sy'n ffocysu ar yr hyn sydd o ddiddordeb i'r plentyn neu berson ifanc, ynghyd â mewnbwn unigol e.e teithiau lles i fynd i'r afael gyda gofidiau megis gor-bryder unigolion. Yn aml hefyd, mae'r swyddogion yn cymryd rôl arweiniol yn trafod mesurau diogelu Covid ysgolion gyda rhieni/gofalwyr er mwyn iddynt gael sicrwydd bod gweithdrefnau cadarn mewn lle gydag ysgolion. Mae 4 disgybl yng Ngheredigion sydd heb ddychwelyd i'r ysgol ers y cyfnodau clo, ac mae gwaith arbenigol e.e. CAMHS yn gweithio gyda'r unigolion hynny.

Llywodraethwyr:

Mae ein Cyrff Llywodraethwyr yn cael cynnig rhaglen hyfforddiant bwrrpasol, sy'n ymwneud ag hyfforddiant mandadol yn ogystal ag elfennau eraill. Mae fforymau penodol llwyddiannus eraill ble mae Llywodraethwyr o bob ysgol yn dod ynghyd i dderbyn gwybodaeth e.e ar y cwricwlwm, deddf ADY ayyb a hefyd i rannu syniadau ac arferion ymysg ei gilydd. Er ein bod yn annog Llywodraethwyr i fynegi diddordeb pan mae Estyn yn hysbyebu am Arolygwyr Lleyg, nid ydym wedi gwneud hynny ers cyn y pandemig. Mae cyfarfod nesaf Fforwm Llywodraethwyr Ceredigion ar Chwefror 16eg ble fyddwn yn cymryd y cyfle i'w hatgoffa eto o'r cyfleoedd hyn.

Yn gywir,

MEbbsworth

Meinir Ebbsworth
Prif Swyddog Addysg

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive :
Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors :

Eifion Evans
Barry Rees MBE
James Starbuck